



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Confirmed Minutes of the Board Meeting
held on 26 March 2020,
(held electronically via skype / telephone)**

Present:		
Jan Williams	(JW)	Chair
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Kate Eden	(KE)	Non-Executive Director, Vice Chair and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee, via teleconference
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Stephen Palmer	(StP)	Non-Executive Director, via teleconference
Shantini Paranjothy	(ShP)	Non-Executive Director (University) and Chair of the Knowledge, Research and Information Committee
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Alison Ward	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority)
In Attendance:		
Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate,

John Boulton	(JB)	Director of NHS Quality Improvement and Patient Safety/Director Improvement Cymru
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development
Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit, via teleconference
Andrew Jones From item 41	(AJ)	Deputy Director of Public Health Services (part of the meeting)
Reanne Reffell	(RR)	Corporate Governance Officer (Secretariat)
Giri Shankar	(GS)	Professional Lead for Health Protection
Stephanie Wilkinson	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum
Apologies:		
Mark Bellis	(MB)	Director of Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being (WHO CC)
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director

The meeting commenced at 09:00

PHW32/2020	Welcome
<p>JW welcomed all to the meeting, being held in the midst of a global public health emergency. COVID-19 represented a pandemic, the like of which was unprecedented in anyone's lifetime. Consequently the Board would focus its business on the response to this pandemic for the foreseeable future.</p> <p>The Board received the Ratification of Chair's Action report (ref 1.260320).</p> <p>The Board resolved to ratify the Chair's Action, in line with the report.</p>	
PHW33/2020	Apologies
<p>The Board noted the apologies for absence.</p>	
PHW34/2020	Declarations of Interest
<p>DE declared an interest in agenda item PHW44/2020 - Novel Coronavirus, highlighting the employment of two family members in Betsi Cadwalader Health Board. DE had previously declared these interests on the register.</p>	

HB declared an interest in agenda item **PHW39/2020** – Hosting agreement extension to NHS Wales Health Collaborative, highlighting the employment of a family member in the organisation. HB had previously declared this interest on the register.

PHW35/2020 Board and committee arrangements for the foreseeable future

The Board **received** the Board Governance Arrangements report (ref [3.260320](#)).

The Board considered the proposed governance arrangements for the foreseeable time in light of COVID-19.

- The Board resolved to:
- **Approve** the proposed temporary variations to the identified standing orders;
 - **Approve** the revised approach to Board Level decision making;
 - **Approve** the approach to public communication from the Board given that the Board would not meet in public for the foreseeable future.

PHW36/2020 Committees of the Board: Report from Committee Chairs

The Board **received** the composite report from the Committee Chairs’ (ref [6.4.230320](#)).

Quality, Safety and Improvement Committee
 KE introduced the report from the meeting on 6 February 2020, commenting specifically on the service user engagement agenda item. The Board would return to this on the resumption of business as usual and would look at delivering Public Health Wales’ ambitions in this area.

KE went on to outline the Committee’s arrangements for the next meeting, which would focus on its core Terms of Reference, in particular, the Annual Quality Statement and Putting Things Right, together with its assurance role linked to COVID-19.

Audit and Corporate Governance Committee
 DE introduced the report from the meeting on 15 January 2020 and provided a verbal update on the further meeting held electronically on the 19 March 2020. The latter had focused on governance and financial reporting. The Committee was pleased to note Welsh Government’s flexibility on the previously agreed schedule.

DE highlighted the Wales Audit Office annual report, along with a report reviewing the organisation’s implementation of the Future Generations Wales Act; both reports reflected well on Public Health Wales and would be circulated in due course. DE confirmed that the committee would meet on a virtual basis

<p>during the forthcoming months with a focus on its core responsibilities.</p> <p>The Board noted the report from Committee Chairs, which also included updates from the Knowledge, Research and Information Committee held on 6 February 2020, and the People and Organisational Development Committee, held on 27 February 2020.</p>	
PHW37/2020	Minutes from the Board Meeting on 23 January 2020
<p>The Board approved the minutes as an accurate record of the meeting of 23 January 2020 (ref 4.1.260320).</p>	
PHW38/2020	Board Action Log
<p>The Board considered the Action Log (ref 4.1.2.260320), noting the suspension of business as usual for the foreseeable future.</p> <p>The Board approved the closure of the actions marked as complete, noting the movement of action PHW09/2020, related to the workforce plan to open status, for consideration at a future Board meeting.</p>	
PHW39/2020	NHS Wales Collaborative hosting agreement 2020/21
<p>The Board received the NHS Wales Health Collaborative – hosting agreement extension (ref 6.5.260320).</p> <p>Board members considered the report, noting that the Audit and Corporate Governance Committee had taken assurance from the NHS Wales Collaborative annual assurance report at its last meeting.</p> <p>The Board resolved to approve the extension to the hosting agreement for the NHS Wales Health Collaborative for the 2020/21 financial year.</p>	
PHW40/2020	Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal
<p>The Board received the Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal report (ref 6.6.260320).</p> <p>Board members resolved to ratify the affixing of the Common Seal to extend the lease to part of the 2nd Floor, Cathedral Road, Cardiff, CF11 9JL.</p> <p style="text-align: center;"><i>AJ joined the meeting</i></p>	
PHW41/2020	Items for Noting
<p>The Board received and noted the Annual Equality Report 2018-19 (ref 8.260320).</p> <p>PB advised of the revised publication timescales for the organisation's Strategic Equality Objectives and Gender Pay gap reports.</p>	

PHW42/2020 Integrated Performance Report
--

The Board **received** the Integrated Performance report (ref [6.2.260320](#)).

In introducing the report, HG drew members' attention to the fact that current performance monitoring and management focused on all aspects of mobilization in support of COVID-19. He referenced indicators around call center performance, the testing response time, mortality rates and associated workforce indicators. The report on the agenda would assist in the compilation of the Annual Accounts and Annual Report; the executive team would review the whole approach to reporting following the resumption of business as usual.

The Board **resolved** to note the report provided and update given on current performance management and monitoring.

PHW43/2020 Chief Executive's report

TC reflected on the fundamental ways in which the world had changed since the last Board meeting, and the implications for Public Health Wales; she noted that the following agenda item focussed on COVID-19 and used her report to highlight three associated issues, for completeness.

Andrew Goodall, Director General of Health and Social Services and Chief Executive, NHS Wales, had instituted regular calls with his officials and Chief Executives; he had issued a revised financial framework this week, to assist the system. The Public Health Wales team was working closely with the Director General and his team, using their prompt approval of capital submissions as an example.

TC went on to talk about the Ministerial decision in respect of screening programmes and rehearsed the advice submitted to policy leads in Welsh Government. In making his announcement, the Minister for Health and Social Services had commented that the well-being of the people of Wales was his top priority, that the suspensions were temporary and would resume at the earliest opportunity when it was safe to do so.

TC outlined the internal arrangements for day-to-day management and oversight within the organisation.

TC confirmed the maintenance of the Help Me Quit service at this point, although its continuance depended on Health Boards maintaining relevant services.

TC then commented on discussions around vaccination and immunisation programmes and confirmed that she would update the Board for information as the advice around this issue crystallised.

DE welcomed the information on the rationale underpinning the suspension of the five screening programmes; he commented on the messaging around the continuation of symptomatic services and hoped that the programmes' resumption would include acting on the many gains made in recent months. TC confirmed that this would be the case, also noting that the resumption of programmes would present Public Health Wales with a further system leadership role, and involve societal level behavioural messaging.

PHW44/2020 Urgent items - Novel Coronavirus

TC began by outlining the scale of the organisational transformation over the last month, led by staff, whose response to the COVID-19 mobilisation continued to be both exceptional and inspiring. She was profoundly grateful to all concerned, and drew the Board's particular attention to the expertise, professionalism and outstanding system leadership from: Eleri Davies, Huw George, Robin Howe, David Heyburn, Giri Shankar, Andrew Jones, Quentin Sandifer, Chris Williams and Rhiannon Beaumont-Wood.

HG set out the governance arrangements put in place to ensure that the Board could continue to maintain strong governance during these extraordinary times, outlining the incident management structure, the decision making processes and the separate cost centre to capture all COVID-19 expenditure.

HG went on to describe the facilities' adaptations, and capability, in Capital Quarter 2, Matrix House and Preswylfa. He paid tribute to Welsh Government colleagues for their prompt approval of key capital purchases.

RB-W summarised the features of the workforce mobilisation plan, designed to support the controlled movement of staff, enable ongoing communications with staff and prepare for reactivation post-COVID-19. RB-W then outlined the staff skills audit, part of the work to ensure resilience (n4) around surges, sickness and isolation issues. She noted the numbers involved, and the three categories of 'swim lanes', in line with internal redeployment, mutual aid and civic duties. She concluded by referencing the forthcoming staff support centre.

RB-W also confirmed that the existing arrangement for concerns' and complaints' handling remained in place.

GS took the Board through the latest position at a global level, across Europe, within the UK and in Wales, noting the current numbers at each level. He reminded the Board of the policy changes introduced during March and the impact on testing, together with the key, societal level behavioural changes introduced as part of the move from the 'containment' to the 'delay' phase. GS then summarised the reasonable worst case scenario and the possible impact of public compliance with the new social distancing and home working requirements on acute sector capacity.

GS then focussed on current testing capability and plans to increase this over the coming weeks and months. He emphasised the need to focus on older people, and on closed settings of care.

AJ briefed the Board on his role around the partnership agenda, with partners including: Welsh Government officials- the Chief Medical Officer and his team and the Chief Scientific Officer; Local Resilience Fora and their associated Strategic Co-ordinating Groups(SCGs); local Directors of Public Health; Assistant Chief Constables; local Directors of Public Protection(DPPs).

He noted the arrangements to provide a single Public Health Wales point of contact for partners and the setting up of the Public Health Co-ordinating Support Group. Membership of this comprised: the four SCGs; the DsPP; Food Standards Agency; Natural Resources Wales; a senior police officer; senior officer from the fire service.

Non-Executive Directors expressed their appreciation of the breadth and depth of the briefing, as it brought them up to speed, both internally and from the Public Health Wales system leadership perspective. They conveyed their heartfelt thanks to everyone involved across the organisation; the response to mobilisation had been, and continued to be, outstanding and all Non-Executive directors expressed their sense of pride in their Board membership.

A wide ranging discussion included the following issues:

Testing: the options for increasing capacity; the implications of the reasonable worst case scenario; the possibility of a second wave in the autumn; support for Aneurin Bevan University Health Board; evidence gathering; policy issues; testing of Public Health Wales staff.

Workforce: redeployment plans; volunteering; contractual arrangements; mutual aid; advice of travelling on public transport; access to Occupational Health.

Partnership working: the role of the universities; work to support local public health teams; the key agenda items for partnership working.

Communications: consistent messaging across the system; engagement with local Directors of Public Health.

TC summarised the way in which the Executive and Incident Management Team were handling each of the subject areas. To keep the Board up to speed, she confirmed that the executive would produce a high level summary, as a by-product of the performance matrix in use at executive level. JW thanked TC for this, emphasising that the Board did not intend this to result in any additional work, but to form an extract from the dashboard already in place.

In addition, the Board agreed to move to weekly briefings and to include a formal Board meeting in April. HB also confirmed that she would produce a once daily email for information.

In conclusion, JW reiterated the Board's sincere thanks and appreciation of the Executive leadership of the organisation. TC and the whole team involved in steering Public Health Wales through this unprecedented global public health emergency were providing outstanding system leadership. The Non-Executive Directors placed on record their total support for the actions being taken at executive level and their commitment to providing strong, appropriate Board-level governance throughout the COVID-19 period.

Action: HG to produce a high level matrix of key governance and performance indicators.

PHW45/2020 Any Other Business

JW noted that ShP was leaving the board at the end of March and that Board members wanted to thank ShP for her contribution to the work of the Board over the last three years. SP had focussed on the academic public health agenda in Wales, and had been instrumental in setting up and establishing the Knowledge, Research and Information Committee (KRIC). JW assured ShP that the Board would return to both the academic public health and KRIC agendas post COVID-19. Colleagues also wished ShP every success in her new role at the University of Aberdeen.

Date of next meeting

28 May 2020 at 09.00, via electronic means.

Board members agreed to review the frequency of meetings in these unprecedented times.

The Public Session closed at 11:25

The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion wedi'u cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020,
(cynhaliwyd yn electronig drwy gyswllt skype/dros y ffôn)**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, drwy delegynadledda
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Stephen Palmer	(StP)	Cyfarwyddwr Anweithredol, drwy delegynadledda
Shantini Paranjothy	(ShP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Hefyd yn bresennol:		
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru

Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd, drwy delegynadledda
Andrew Jones o eitem 41 ymlaen	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus (rhan o'r cyfarfod)
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
Giri Shankar	(GS)	Ymgynghorydd Arweiniol Proffesiynol ar gyfer Diogelu Iechyd
Stephanie Wilkinson	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff
Ymddiheuriadau:		
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC)
Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00

PHW32/2020	Croeso
<p>Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, a oedd yn cael ei gynnal yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus byd-eang. Roedd COVID-19 yn bandemig digynsail yn ystod ein hoes ac felly byddai'r Bwrdd yn canolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.</p> <p>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad yn Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd (cyf 1.260320).</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd gadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd, yn unol â'r adroddiad.</p>	
PHW33/2020	Ymddiheuriadau
<p>Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.</p>	
PHW34/2020	Datgan Buddiannau
<p>Datganodd DE fuddiant yn eitem PHW44/2020 – Coronafeirws Newydd, gan nodi bod dau aelod o'i deulu yn cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Roedd DE wedi datgan y buddiannau hyn o'r blaen ar y gofrestr.</p>	

<p>Datganodd HB fuddiant yn eitem PHW39/2020 – Estyniad i Gytundeb Lletya Cydweithrediaeth GIG Cymru, gan nodi bod aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y sefydliad.</p>	
PHW35/2020	Trefniadau ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer y dyfodol rhagweladwy
<p>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar Drefniadau Llywodraethu'r Bwrdd (cyf 3.260320).</p> <p>Ystyriodd y Bwrdd y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yng ngoleuni COVID-19.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gymeradwyo'r amrywiadau arfaethedig dros dro i'r rheolau sefydlog a nodwyd;• Cymeradwyo'r dull diwygiedig o wneud penderfyniadau ar Lefel Bwrdd;• Cymeradwyo dull y Bwrdd o gyfathrebu cyhoeddus o ystyried na fydd y Bwrdd yn cyfarfod yn gyhoeddus yn y dyfodol rhagweladwy.	
PHW36/2020	Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau
<p>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (cyf 6.4.230320).</p> <p>Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella</p> <p>Cyflwynodd KE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020, gan wneud sylw penodol am yr eitem ar yr agenda yn ymwneud ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Bydd y Bwrdd yn dychwelyd at yr eitem hon ar ôl i fusnes fel arfer ailddechrau gan anelu at gyflawni uchelgeisiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y maes hwn.</p> <p>Aeth KE ymlaen i amlinellu trefniadau'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fyddai'n canolbwyntio ar ei Gylch Gorchwyl craidd, yn benodol, y Datganiad Ansawdd Blynyddol a Gweithio i Wella, ynghyd â'i rôl sicrwydd yn gysylltiedig â COVID-19.</p> <p>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol</p> <p>Cyflwynodd DE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 a rhoddodd ddiweddariad ar lafar o'r cyfarfod pellach a gynhaliwyd yn electronig ar 19 Mawrth 2020. Roedd y cyfarfod hwnnw wedi canolbwyntio ar lywodraethu ac adroddiadau ariannol. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi hyblygrwydd Llywodraeth Cymru o ran yr amserlen y cytunwyd arni yn flaenorol.</p> <p>Tynnodd DE sylw at adroddiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ag adroddiad yn adolygu sut mae'r sefydliad yn gweithredu Deddf Llesiant</p>	

<p>Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); roedd y ddau adroddiad yn adlewyrchu'n dda ar Iechyd Cyhoeddus Cymru a byddent yn cael eu cylchredeg maes o law. Cadarnhaodd DE y bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar sail rithwir yn ystod y misoedd i ddod gan ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd.</p> <p>Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, a oedd hefyd yn cynnwys diweddariadau gan y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020, a'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020.</p>	
PHW37/2020	Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020
<p>Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 (cyf 4.1.260320).</p>	
PHW38/2020	Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd
<p>Ystyriodd y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu (cyf 4.1.2.260320), gan nodi bod busnes fel arfer wedi'i ohirio am y dyfodol rhagweladwy.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i gau y camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau, gan nodi bod cam gweithredu PHW09/2020, sy'n gysylltiedig â chynllun y gweithlu wedi symud i statws agored, i'w ystyried mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.</p>	
PHW39/2020	Cytundeb Lletya Cydweithrediaeth GIG Cymru 2020/21
<p>Derbyniodd y Bwrdd yr estyniad i gytundeb lletya Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru (cyf 6.5.260320).</p> <p>Ystyriodd aelodau'r Bwrdd yr adroddiad, gan nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi cael sicrwydd o adroddiad sicrwydd blynyddol Cydweithrediaeth GIG Cymru yn ei gyfarfod diwethaf.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo'r estyniad i gytundeb lletya Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.</p>	
PHW40/2020	Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin
<p>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad yn Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin (cyf 6.6.260320).</p> <p>Penderfynodd aelodau'r Bwrdd gadarnhau gosod y Sêl Gyffredin i ymestyn y brydles i ran o'r 2^{il} Lawr, Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9JL.</p> <p style="text-align: center;"><i>Ymunodd AJ â'r cyfarfod</i></p>	
PHW41/2020	Eitemau i'w nodi

Derbyniodd a nododd y Bwrdd yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018-19 (cyf [8.260320](#)).

Nododd PB yr amserlenni cyhoeddi diwygiedig ar gyfer adroddiadau'r sefydliad ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

PHW42/2020 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Derbyniodd y Bwrdd yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad (cyf [6.2.260320](#)).

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd HG sylw'r aelodau at y ffaith bod y gwaith monitro a rheoli perfformiad presennol yn canolbwyntio ar bob agwedd ar ddefnyddio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith ar COVID-19. Cyfeiriodd at ddangosyddion yn ymwneud â pherfformiad canolfannau cyswllt, amser ymateb o ran profion, cyfraddau marwolaeth a dangosyddion cysylltiedig yn ymwneud â'r cysylltiedig. Byddai'r adroddiad ar yr agenda o gymorth wrth lunio'r Cyfrifon Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol; bydd y tîm gweithredol yn adolygu'r holl ddull adrodd ar ôl i fusnes fel arfer aildechrau.

Penderfynodd y Bwrdd nodi'r adroddiad a ddarparwyd a'r newyddion diweddaraf a rannwyd ar fonitro a rheoli perfformiad presennol.

PHW43/2020 Adroddiad y Prif Weithredwr

Myfyriodd TC ar sut yr oedd y byd wedi newid yn sylfaenol ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, a'r goblygiadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru; nododd fod yr eitem nesaf ar yr agenda yn canolbwyntio ar COVID-19 a defnyddiodd ei hadroddiad i dynnu sylw at dri mater cysylltiedig, er cyflawnder.

Roedd Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, wedi sefydlu galwadau rheolaidd rhwng ei swyddogion a Phrif Weithredwyr; roedd wedi cyhoeddi fframwaith ariannol diwygiedig yr wythnos hon, i gynorthwyo'r system. Roedd tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos â Dr Goodall â'i dîm, ac enghraifft o hynny oedd cymeradwyo cyflwyniadau cyfalaf yn brydlon.

Aeth TC ymlaen i sôn am y penderfyniad Gweinidogol mewn perthynas â rhaglenni sgrinio ac ailadroddod y cyngor a roddwyd i arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru. Wrth wneud ei gyhoeddiad, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi mai llesiant pobl Cymru oedd ei brif flaenoriaeth, ac mai ataliadau dros dro oedd y rhain a byddai'r rhaglenni'n aildechrau cyn gynted â phosibl pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Amlinellodd TC y trefniadau mewnol ar gyfer rheoli a goruchwylio'r sefydliad o ddydd i ddydd.

Cadarnhaodd TC y bydd gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn parhau ar yr adeg hon, er bod ei barhad yn dibynnu ar Fyrddau Iechyd yn cynnal gwasanaethau perthnasol.

Yna gwnaeth TC sylwadau ar drafodaethau ynghylch rhaglenni brechu ac imiwneiddio a chadarnhaodd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd wrth i'r cyngor mewn perthynas â'r mater hwn grisialu.

Croesawodd DE y wybodaeth ynglŷn â'r rhesymeg sy'n sail i atal y pum rhaglen sgrinio; gwnaeth sylwadau am y negeseuon ynghylch parhad gwasanaethau symptomatig a'i obaith pan fyddai'r rhaglenni'n aildechrau oedd y byddai hynny'n cynnwys cymryd camau ar y cynnydd a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf. Cadarnhaodd TC y byddai hynny'n digwydd, gan nodi hefyd pan fydd y rhaglenni'n aildechrau y bydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arwain system pellach, yn cynnwys negeseuon am ymddygiad ar lefel gymdeithasol.

PHW44/2020 Eitemau brys – Coronafeirws Newydd

Dechreuodd TC drwy amlinellu maint trawsnewidiad y sefydliad dros y mis diwethaf, a arweiniwyd gan staff yr oedd eu hymateb i'r newidiadau o ganlyniad i COVID-19 yn parhau i fod yn eithriadol ac yn ysbrydoliaeth. Roedd yn hynod ddiolchgar i bawb a oedd yn gysylltiedig â hyn, a thynnodd sylw'r Bwrdd yn benodol at arbenigedd, proffesiynoldeb ac arweinyddiaeth system ragorol gan: Eleri Davies, Huw George, Robin Howe, David Heyburn, Giri Shankar, Andrew Jones, Quentin Sandifer, Chris Williams a Rhiannon Beaumont-Wood.

Nododd HG y trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu parhau i gynnal trefniadau llywodraethu cryf yn ystod y cyfnod anghyffredin hwn, gan amlinellu'r strwythur rheoli digwyddiadau, y prosesau o ran gwneud penderfyniadau a'r ganolfan gost ar wahân ar gyfer yr holl wariant ar COVID-19.

Aeth HG ymlaen i ddisgrifio addasiadau a gallu'r cyfleusterau yn 2 Capital Quarter, Tŷ Matrix a Phreswylfa. Talodd deyrnged i gydweithwyr Llywodraeth Cymru am gymeradwyo pryniannau cyfalaf allweddol yn brydlon.

Aeth RB-W ati i grynhoi nodweddion y cynllun defnyddio'r gweithlu, a gynlluniwyd i gefnogi symud staff mewn modd rheoledig, galluogi cyfathrebu parhaus â staff a pharatoi ar gyfer dychwelyd i'w dyletswyddau blaenorol ar ôl COVID-19. Yna amlinellodd RB-W yr archwiliad o sgiliau staff, rhan o'r gwaith i sicrhau cydnerthedd (n4) mewn perthynas â chynnydd yn y galw, salwch a materion yn ymwneud ag ynysu. Nododd y niferoedd dan sylw, a'r tri chategori o 'lonydd nofio', yn unol ag adleoli mewnol, cyd-gymorth a dyletswyddau dinesig. Gorffennodd drwy gyfeirio at y ganolfan cefnogi staff arfaethedig.

Cadarnhaodd RB-W hefyd fod y trefniant presennol i ddelio â phryderon a chwynion yn parhau.

Cafodd y Bwrdd eu tywys gan GS drwy'r sefyllfa ddiweddaraf ar lefel fyd-eang, ar draws Ewrop, yn y DU a Chymru, gan nodi'r niferoedd presennol ar bob lefel. Atgoffodd y Bwrdd o'r newidiadau polisi a gyflwynwyd ym mis Mawrth a'r effaith ar brofion, ynghyd â'r newidiadau ymddygiad allweddol ar lefel gymdeithasol a gyflwynwyd fel pan symudwyd o'r cyfnod 'cyfyngu' i'r cyfnod 'oedi'. Yna aeth GS ati i grynhoi'r senario achos gwaethaf rhesymol ac effaith posibl y cyhoedd yn cydymffurfio â gofynion newydd ymbellhau cymdeithasol a gweithio gartref ar allu'r sector aciwt.

Yna canolbwyntiodd GS ar y gallu presennol i gynnal profion a chynlluniau i gynyddu hyn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Pwysleisiodd yr angen i ganolbwyntio ar bobl hŷn, ac ar leoliadau gofal caeedig.

Briffiodd AJ y Bwrdd ar ei rôl mewn perthynas â'r agenda partneriaethau, gyda phartneriaid yn cynnwys: swyddogion Llywodraeth Cymru – y Prif Swyddog Meddygol a'i dîm a'r Prif Swyddog Gwyddonol; Fforymau Cydnerthedd Lleol a'u Grwpiau Cydlyn Strategol cysylltiedig; Cyfarwyddwyr lleol Iechyd Cyhoeddus; Prif Gwnstablaiid Cynorthwyol; Cyfarwyddwyr lleol Diogelu'r Cyhoedd.

Nododd y trefniadau i ddarparu un pwynt cyswllt yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i bartneriaid a sefydlu Grŵp Cymorth Cydlyn Iechyd Cyhoeddus. Roedd yr aelodau'n cynnwys: y pedwar Grŵp Cydlyn Strategol; Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd; Asiantaeth Safonau Bwyd; Cyfoeth Naturiol Cymru; uwch swyddog o'r heddlu; uwch swyddog o'r gwasanaeth tân.

Mynegodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol eu gwerthfawrogiad o hyd a lled y briff, gan ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, yn fewnol ac o safbwynt arweinyddiaeth system Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roeddent yn diolch o waelod calon i bawb ar draws y sefydliad a oedd yn ymwneud â'r gwaith hwn; roedd yr ymateb i symud y gweithlu wedi bod, ac yn parhau i fod, yn eithriadol a mynegodd yr holl Gyfarwyddwyr Anweithredol eu bod yn falch o fod yn aelod o'r Bwrdd.

Cafwyd trafodaeth eang yn cynnwys y materion canlynol:

Profion: yr opsiynau o ran cynyddu capasiti; goblygiadau'r sefyllfa waethaf; posibilrwydd o ail don yn yr Hydref; cefnogaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; casglu tystiolaeth; materion polisi; profi staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y gweithlu: cynlluniau adleoli; gwirfoddoli; trefniadau cytundebol; cyd-gymorth; cyngor ar deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus; mynediad at Iechyd Galwedigaethol.

Gweithio mewn partneriaeth: rôl y prifysgolion; gwaith i gefnogi timau iechyd cyhoeddus lleol; y prif eitemau ar yr agenda ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Cyfathrebu: negeseuon cyson ar draws y system; ymgysylltu â Chyfarwyddwyr lleol Iechyd Cyhoeddus.

Aeth TC ati i grynhoi'r modd yr oedd y Tîm Gweithredol a'r Tîm Rheoli Digwyddiadau yn delio â phob un o'r meysydd pwnc. Er mwyn i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, cadarnhaodd y bydd y tîm gweithredol yn paratoi crynodeb lefel uchel, yn sgil gynnyrch o'r matrices perfformiad a ddefnyddir ar lefel weithredol. Diolchodd JW i TC, gan bwysleisio nad bwriad y Bwrdd oedd creu unrhyw waith ychwanegol, ond yn hytrach creu crynodeb o'r dangosfwrdd a oedd eisoes ar waith. Yn ogystal â hynny, cytunodd y Bwrdd i gael eu briffio'n wythnosol ac i gael cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd ym mis Ebrill. Cadarnhaodd HB hefyd y bydd yn anfon e-bost dyddiol er gwybodaeth.

I gloi, ailadroddodd JW fod y Bwrdd yn diolch yn ddiffuant ac yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth weithredol y sefydliad. Roedd TC a'r holl dîm oedd yn gysylltiedig â llywio Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy'r argyfwng iechyd cyhoeddus byd-eang disgynsail hwn yn darparu arweinyddiaeth system ragorol. Cofnododd y Cyfarwyddwyr Anweithredol eu cefnogaeth lawn i'r camau sy'n cael eu cymryd ar lefel y swyddogion gweithredol a'u hymrwymiad i ddarparu trefniadau llywodraethu cryf a phriodol ar lefel Bwrdd drwy gydol cyfnod COVID-19.

Camau Gweithredu: HG i gynhyrchu matrices lefel uchel o ddangosyddion llywodraethu a pherfformiad allweddol.

PHW45/2020 Dyddiad y cyfarfod nesaf

28 Mai 2020 am 09.00, yn electronig.

Cytunodd aelodau'r Bwrdd i adolygu amllder y cyfarfodydd yn ystod yr amseroedd digynsail hyn.

Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 11:25

Yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cyfarfu'r Bwrdd mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddo'n niweidiol i fudd cyhoeddus.